Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

# Y Strategaeth Toiledau Lleol - Adolygiad Cynnydd Interim

## Medi 2021




Pan welwch yr arwydd hwn, mae'n golygu bod croeso ichi ddefnyddio'r toiled

When you see this sign, it means you are welcome to use the toilet

## Crynodeb Gweithredol

Mae toiledau at ddefnydd cyhoeddus yn bwysig i bawb sy'n mynd "oddi cartref". Ond maen nhw, fodd bynnag, hyd yn oed yn fwy pwysig i grwpiau penodol oddi fewn i gymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau, pobl ag anghenion penodol (yn cynnwys rhai problemau meddygol), menywod, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Gall y grwpiau hyn gael eu heffeithio'n anghymesur gan ddarpariaeth wael. Gall diffyg toiledau cyhoeddus gael effeithiau eang a chyfrannu at gynnydd mewn ynysigrwydd cymdeithasol ac anweithgarwch, yn ogystal ag effeithio ar allu pobl i gynnal annibyniaeth ac urddas yn hwyrach yn eu bywydau.

Daeth rhan 8 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017: Darparu Toiledau i rym ar 31 Mai 2018 ac mae'n gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer ei ardal.

Bellach, mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol Cymru i:

- asesu'r angen am ddarpariaeth toiledau yn eu cymunedau;
- cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny;
- cynhyrchu Strategaeth Toiledau Lleol; ac
- adolygu'r Strategaeth, diweddaru a hysbysebu adolygiadau.

Er bod rhan 8 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017, Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar "Ddarpariaeth Toiledau", mae darparu a chynnal toiledau mewn lleoedd cyhoeddus yn swyddogaeth a weithredir yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol sydd â'r grym o dan adran 87 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1963 i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus. Nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol. Wrth ystyried darparu a chynnal toiledau at ddefnydd cyhoeddus, rhaid i'r Cyngor gydbwyso'r gystadleuaeth leol am amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus. Felly, rhaid i'r Cyngor gymryd golwg strategol ar ffyrdd o ddarparu cyfleusterau at ddefnydd y boblogaeth leol.

Mae canlyniadau'r 2 ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Medi 2018 a mis Mawrth 2019 wedi'u crynhoi yn Atodiad 1, ac yn sgil hynny fe gyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Toiledau Lleol ym mis Ebrill 2019. Nod cyffredinol y strategaeth hon yw darparu neu hwyluso'r ddarpariaeth o doiledau glân, diogel, hygyrch a chynaliadwy ar

gyfer preswylwyr yn ogystal ag ymwelwyr â’r Fwrdeistref Sirol, a’u gosod mewn lleoliadau lle nodwyd bod eu hangen.

Mae’n ofynnol i’r Strategaeth gael ei hadolygu bob 2 flynedd gan ddechrau o’r adeg y cyhoeddodd y Cyngor ei strategaeth ddiwethaf, neu 2 flynedd o ddyddiad adolygiad ôl-etholiadol diwethaf y Strategaeth hon. Mae angen cyhoeddi’r adolygiad cyn pen 6 mis. Cynhaliwyd yr adolygiad i gyflawni’r gofyniad hwnnw ac mae’n cwmpasu’r cyfnod o 2 flynedd rhwng 18 Ebrill 2019 a 18 Ebrill 2021. Fodd bynnag, cafodd ei ddiweddaru cyn y dyddiad cyhoeddi disgwyliedig ym mis Hydref 2021, er mwyn cynnwys cyfeiriad at agor y Gyfnewidfa Fysiau newydd ym mis Mehefin 2021 ac ailagor y cyfleusterau toiled yn y parciau fel rhan o Gynllun Adfer Covid.

Mae’r adolygiad yn asesu cynnydd yn erbyn cynigion y Cyngor i ehangu lefel y ddarpariaeth toiledau sydd ar gael i’r cyhoedd yn y Fwrdeistref. Yn amlwg, mae’r pandemig Covid wedi effeithio ar gynnydd, gan fod gweithwyr rheng flaen wedi rhoi’r flaenoriaeth i ffrwyno lledaeniad y feirws yn hytrach na llawer o amcanion strategol eraill. Fodd bynnag, bu rhai gwelliannau pwysig wrth osod arwyddion ar gyfer toiledau’r cyhoedd a’u cynnwys yn y Map Toiledau Cenedlaethol ar wefan Lle. At hynny, rydyn ni wrthi’n uwchraddio ein tudalen we ryngweithiol sef Croeso Merthyr i gynnwys toiledau sydd ar gael i’r cyhoedd. Mae agor y Gyfnewidfa Fysiau newydd, sy’n ymgorffori cyfleusterau toiled, yn garreg filltir arwyddocaol yng nghynnydd y Strategaeth. Mae’r agoriad hwnnw wedi gwella’r mynediad i doiledau glân a diogel yn y ward drefol oedd gynt ag enw drwg iddi am ddiffyg darpariaeth.

## Cefndir

Yn ôl Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017, mae’n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru baratoi a chyhoeddi Strategaeth Toiledau Lleol i’w ardal erbyn 31 Mai 2019. Yn unol â chanllawiau statudol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, wedi gosod allan Strategaeth i fynd i’r afael â’r angen am doiledau yn y gymuned i geisio gwella safonau ac argaeledd toiledau sy’n hygyrch i’r cyhoedd. Cafodd y Strategaeth Toiledau Lleol ei chyhoeddi ar 18 Ebrill 2019.

Yn dilyn y cyhoeddiad cychwynnol, mae’n ofynnol i’r Awdurdod Lleol gynnal adolygiad o gynnydd yn erbyn cynigion y Strategaeth ac yn unol ag amserlenni statudol. Rhaid i’r Datganiad Cynnydd Interim gwmpasu cyfnod o ddwy flynedd sy’n dechrau ar ddyddiad y Strategaeth gyhoeddedig ddiwethaf (“cyfnod y datganiad”) a rhaid ei gyhoeddi cyn pen chwe mis o ddiwrnod olaf y cyfnod dwy flynedd.

Mae’r adolygiad interim hwn yn cwmpasu’r cyfnod o ddwy flynedd rhwng 18 Ebrill 2019 a 18 Ebrill 2021; fodd bynnag, cafodd ei ddiweddaru cyn diwedd y chwe mis i’r cyhoeddiad, er mwyn cynnwys cyfeiriad at agor y Gyfnewidfa Fysiau newydd ym mis Mehefin 2021 ac ailagor cyfleusterau toiled y parciau fel rhan o Gynllun Adfer Covid.

# Cyflwyniad

I ba le bynnag y bydd pobl yn mynd iddo y tu hwnt i’w cartrefi, byddant yn dibynnu ar gyfleusterau toiled er mwyn mwynhau eu hymweliad. Mae ymwelwyr â Merthyr Tudful, a allai hefyd fod beth pellter o’u cartrefi, hefyd yn dibynnu ar ddarpariaeth o doiledau hygyrch.

Mae’r ddarpariaeth o gyfleusterau cyhoeddus yn meddu ar oblygiadau o ran iechyd y cyhoedd a’r unigolyn, trafnidiaeth, atal trosedd, dylunio trefol, datblygiad economaidd a diwylliannol a thegwch a hygyrchedd cymdeithasol. Y mae’n ffactor bwysig wrth gyflenwi amgylchedd sy’n “gyfeillgar i bobl” ar gyfer pawb sy’n mynd i ganolfannau siopa, lleoliadau hamdden ac adloniant, cyfleusterau chwaraeon, parciau a mannau gwyrdd, ac ar gyfer unrhyw un sy’n symud o gwmpas ar droed, ar feic, mewn car, fan, lori neu drafnidiaeth gyhoeddus, boed ar gyfer gwaith neu bleser.

Mae toiledau at ddefnydd cyhoeddus yn bwysig i bawb sy’n mynd “oddi cartref”. Fodd bynnag, maent hyd yn oed yn bwysicach i rai grwpiau o fewn cymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn, pobl anabl, pobl ag anghenion penodol (gan gynnwys rhai problemau meddygol), menywod, plant a phobl ifanc a’u teuluoedd. Gall darpariaeth wael effeithio’n anghymesur ar y grwpiau hyn. Er enghraifft, deellir bod darpariaeth wael yn cael effeithiau negyddol penodol ar bobl hŷn, gan y gallai rhai bod yn llai tebygol o adael eu cartrefi heb fod yn hyderus y bydd cyfleusterau digonol ar gael iddynt. Gall hyn gyfrannu at fwy o ynysigrwydd cymdeithasol ac anweithgarwch, yn ogystal ag effeithio ar allu pobl i gadw eu hannibyniaeth a’u hurddas yn hwyrach yn eu bywydau.

O ganlyniad, mae darparu toiledau hygyrch i'r cyhoedd yn cefnogi'r isadeiledd sydd ei angen ar ymwelwyr a phreswylwyr i fwynhau'r Fwrdeistref Sirol. Gall toiledau sy'n cael eu rheoli a'u cynnal yn dda gael effaith sylweddol ar gysur unigolion a theuluoedd sy'n ymweld â mannau cyhoeddus, a'u syniad o Ferthyr Tudful fel lle dymunol ar gyfer ymweliad.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n annog cyrff cyhoeddus i feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau, a gweithredu mewn modd mwy cydgysylltiedig. Fel Cyngor, mae'n golygu bod yn rhaid i ni wneud pethau mewn ffordd gynaliadwy.

Fel Cyngor, mae angen i ni ystyried effaith ein penderfyniadau ar y ffordd y bydd pobl yn byw yn y dyfodol.

Er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith. Gyda'i gilydd maent yn darparu gweledigaeth gyffredin y gall cyrff cyhoeddus weithio tuag ati.

Mae'r Ddeddf yn rhoi "egwyddor datblygu cynaliadwy" ar waith sy'n dweud wrthym ni fel Cyngor sut i fynd ati i gyflawni ein dyletswydd o dan y Ddeddf honno.

Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio y dylai cyrff cyhoeddus eu dilyn wrth gyflawni datblygu cynaliadwy. Y rhain yw:

- edrych at y tymor hir fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau;
- gweithredu mewn dull integredig;
- cydweithio ag eraill i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy a rennir;
- cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

Mae'r Cyngor wedi rhoi'r egwyddorion hyn ar waith wrth ddatblygu ac adolygu ei Strategaeth Toiledau Lleol ac fe'u cynhwyswyd yn ein hasesiad effaith integredig.

## Nod y Strategaeth

Nod cyffredinol ein Strategaeth Toiledau Lleol yw darparu toiledau glân, diogel, hygyrch a chynaliadwy i breswylwyr ac ymwelwyr yn y Fwrdeistref Sirol, mewn mannau lle mae'r angen am gyfleusterau o'r fath wedi'u ei nodi.

## Pa gynnydd a wnaed i wella mynediad i gyfleusterau toiled ers i ni gyhoeddi ein Strategaeth Toiledau Lleol?

Er bod rhan 8 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017, Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar "Ddarpariaeth Toiledau", mae darparu a chynnal toiledau mewn lleoedd cyhoeddus yn swyddogaeth a weithredir yn ôl disgresiwn awdurdodau lleol

sydd â'r grym o dan adran 87 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus. Nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol. Wrth ystyried darparu a chynnal toiledau at ddefnydd cyhoeddus, rhaid i'r Cyngor gydbwyso'r gystadleuaeth leol am amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus. Felly, rhaid i'r Cyngor gymryd golwg strategol ar ffyrdd o ddarparu cyfleusterau at ddefnydd y boblogaeth leol.

Pan wnaethon ni gyhoeddi ein strategaeth ym mis Ebrill 2019, roedd y Cyngor wedi dioddef sawl blwyddyn o gyni ac roedd hyn yn cael ei ystyried yn her sylweddol wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, ni allai unrhyw un fod wedi rhagweld pandemig byd-eang a fyddai'n cael effaith mor enfawr ar y ffordd y bu'n rhaid inni fyw ein bywydau, ac mae hyn hefyd wedi effeithio ar ein cynnydd.

Ar adeg cyhoeddi'r Strategaeth, ymrwymodd y Cyngor i'r camau canlynol i liniaru'r bylchau rhwng y ddarpariaeth oedd ar gael o ran toiledau a'r angen a nodwyd:

**Darparu cyfleusterau sy'n addas i'r lleoliad**

*Adolygu darpariaeth o doiledau cyhoeddus sydd ar gael i'r cyhoedd mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth allweddol a mannau mynediad allweddol, gan gynnwys gorsafoedd bws a thrên a leolwyd yng nghanol y dref. Dynodwyd hyn fel y maes lle mae'r angen mwyaf yn bodoli. Caiff ei gynnig fod toiledau cyhoeddus newydd yn cael eu darparu o dan berchnogaeth a rheolaeth y Cyngor. Bydd angen talu i ddefnyddio'r toiledau er mwyn cynorthwyo â chynnal a chadw cynaliadwy a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Caiff y toiledau eu lleoli yn natblygiad newydd yr orsaf fysiau sy'n rhan o raglen ehangach i adfywio canol y dref. Caiff ystyriaeth ei rhoi i leoliad y toiledau newydd gan gadw mewn cof argymhelliad y BTA na ddylai pobl orfod cerdded mwy na 500m at gyfleuster toiled.*

Ymrwymodd y Strategaeth i adolygu'r toiledau a ddarperir i'r cyhoedd mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth allweddol a phwyntiau mynediad allweddol, gan gynnwys y gorsafoedd bysiau a threnau a leolwyd yng nghanol y dref. Nododd y broses asesu anghenion ac ymgynghori cyhoeddus, a grynhoir yn Atodiad 1, mai hwn oedd y maes lle'r oedd y bwlch anghenion mwyaf yn bodoli. Pan wnaethon ni gyhoeddi ein Strategaeth, roedd cynnig eisoes yn bodoli i ddarparu toiledau cyhoeddus newydd o dan berchnogaeth a rheolaeth y Cyngor, fel rhan o adleoli'r orsaf fysiau bresennol.

Gan ddefnyddio cyfanswm o £12 miliwn a gafwyd trwy Gronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru, llwyddwyd i adeiladu ac agor Cyfnewidfa Fysiau newydd ar 13 Mehefin 2021. Mae'r Gyfnewidfa'n cynnwys toiledau cyhoeddus sy'n cynnwys cyfleusterau newid babanod mewn ciwbiclau i ddynion, menywod a'r anabl yn ogystal â rhai unrhywiol. Mae'r cyfleusterau heb oruchwylwyr, ond i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae teledu cylch cyfyng ar waith wrth y fynedfa ac mae'n costio 20c i ddefnyddio'r toiledau. Mae swyddog diogelwch yn rheoli'r safle y tu allan i oriau arferol. Mae cwblhau'r prosiect hwn yn garreg filltir sylweddol yn yr ymdrech i sicrhau mwy o doiledau glân a diogel i'r cyhoedd yng nghanol y dref.

Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud o hyd. Ar adeg yr adolygiad, nid oedd unrhyw arwyddion y tu allan i'r Gyfnewidfa Fysiau i gyfeirio aelodau o'r cyhoedd i'r cyfleusterau toiled newydd. Nododd y cyhoedd yn ein hymgynghoriad fod diffyg arwyddion yng nghanol y dref yn broblem. Rydyn ni'n cydnabod bod hyn yn arbennig o bwysig i'r rheini sydd heb dechnoleg symudol neu sy'n anghyfforddus ynglŷn â'i defnyddio. Bydd arwyddion yn cael eu hymgorffori fel rhan o'r rhaglen adfywio ehangach yng nghanol y dref.

Er ei fod y tu allan i'r cyfnod adolygu, mae'n werth nodi hefyd bod Trafnidiaeth Cymru wedi cyflwyno cais Hysbysiad Ymlaen Llaw i'r Adran Gynllunio ar 22 Gorffennaf 2021 gyda'r nod o godi ciwbicl toiled ar blatfform yr orsaf reilffordd. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, nid oedd y ciwbicl wedi'i adeiladu.

**Cadw toiledau mewn cyflwr da, glân a diogel**

*Addewir y bydd holl doiledau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac adeiladau Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful (Wellbeing@Merthyr) ar agor gydag arwyddion yn cyfeirio'r cyhoedd tuag atynt (ac eithrio ysgolion, cartrefi gofal ac adeiladau eraill lle mae'r cyfleusterau wedi'u lleoli mewn ardaloedd sensitif sydd ddim yn hygyrch i'r cyhoedd). Bydd y Cyngor yn adolygu'r gweithrediadau a'r safonau glanhau yn achlysurol i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol ac effeithlon o fewn yr adnoddau dynodedig. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Heddlu, Diogelwch Cymunedol a phreswylwyr, grwpiau cymunedol ac eraill i sicrhau fod y cyfleusterau mor ddiogel ag sy'n bosibl.*

Addawyd y byddai'r holl doiledau yn adeiladau Cyngor Bwrdeistref Sirol Cyngor Merthyr Tudful ac Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful yn agored gydag arwyddion yn cyfeirio'r cyhoedd tuag atynt (heblaw am ysgolion, cartrefi gofal ac adeiladau eraill lle mae'r cyfleusterau wedi'u lleoli mewn ardaloedd sensitif sydd ddim yn hygyrch i'r cyhoedd).

Ar ôl cyhoeddi ein Strategaeth ym mis Ebrill 2019, cyflawnwyd yr addewid hwn. Roedd cyfleusterau toiled y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth Hamdden ar agor gydag arwyddion yn cyfeirio'r cyhoedd tuag atynt. At hynny, fe'u cynhwyswyd ar y Map Toiledau Cenedlaethol ac arddangoswyd sticeri'r logo toiled cenedlaethol wrth y mynedfeydd. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod adolygu, tarodd pandemig Covid-19 gan effeithio'n sylweddol ar argaeledd y cyfleusterau toiled yn yr adeiladau hyn, wrth i lawer ohonynt gau am gyfnodau hir i gydymffurfio â chyfyngiadau Covid-19. Wrth i'r sefyllfa wella, mae'r cyfleusterau'n ailagor yn raddol ac ar gael er defnydd y cyhoedd unwaith eto.

Rhoddwyd ymrwymiad hefyd i adolygu'r gweithrediadau a'r safonau glanhau o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithlon ac effeithiol o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd.

Fe wnaeth Pandemig Covid ein hatal rhag agor y toiledau cyhoeddus ym mharciau'r Fwrdeistref Sirol am gyfnodau estynedig oherwydd problemau'n ymwneud â glanhau'r

cyfleusterau a diogelu'r cyhoedd. Er eu bod y tu allan i'r cyfnod adolygu ffurfiol, ail-agorwyd toiledau Parc Cyfarthfa ym mis Mehefin 2021 gyda holl gyfleusterau'r parciau eraill yn ailagor ym mis Gorffennaf 2021.

Cyflogwyd contractwr glanhau preifat i lanhau a diheintio toiledau Parc Cyfarthfa sef y man lle ceir y nifer fwyaf o ymwelwyr a lle nodwyd bod diffyg glendid yn broblem gan yr ymgynghoriadau cyhoeddus. Bu oedi cyn ailagor toiledau Parc Taf Bargoed oherwydd anawsterau a gafwyd i recriwtio warden parc. Fodd bynnag, mae warden newydd wedi'i recriwtio erbyn hyn ac mae ei ddyletswyddau'n cynnwys glanhau'r cyfleusterau toiled.

Addawodd y Cyngor y byddai'n parhau i weithio gyda'r Heddlu, Diogelwch Cymunedol a thrigolion, grwpiau cymunedol ac eraill i sicrhau bod y cyfleusterau mor ddiogel â phosibl.

Nodwyd yn ein Strategaeth bod datblygiadau i'r economi hwyr-y-nos ynghyd â'r newidiadau demograffig a gweithgareddau dynol, yn golygu bod canol trefi yn dod yn fwy o hybiau hamdden ac adloniant yn hytrach na chanolfannau sy'n ffocysu'n bennaf ar fanwerthu/masnachu. Yn anffodus, mae twf yr economi hwyr-y-nos wedi arwain at gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol gan gynnwys "baeddu ar y stryd". Er mwyn osgoi troethi a baeddu mewn mannau cyhoeddus, fe wnaethon ni gydnabod bod yn rhaid i gyfleusterau sy'n hygyrch i'r cyhoedd fod yn agos at fannau ymgasglu allweddol yn ystod y nos fel rhengoedd tacsi, meysydd parcio, gorsafoedd rheilffordd/bysiau ac arosfannau bysiau.

Yng nghanol y dref, mae yna ddibyniaeth o hyd ar doiledau a ddarperir mewn adeiladau trwyddedig fin nos, gyda'r toiledau newydd yn y Gyfnewidfa Fysiau yn cau am 6.30pm. Nid oes cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd yn yr orsaf reilffordd o hyd. Fodd bynnag, ar nodyn cadarnhaol, ni nododd Arolwg Canfyddiad Strydoedd Mwy Diogel a gynhaliwyd ym mis Awst 2020 fod baeddu dynol a throethi cyhoeddus yn broblem. Fodd bynnag, derbynnir y ffaith fod yr Arolwg wedi'i gynnal yn ystod y pandemig, ac o'r herwydd ni fyddai wedi dal rhai ymddygiadau wrth i bobl gymdeithasu mewn ffordd wahanol. Yn ogystal, nid yw ein criwiau glanhau strydoedd wedi nodi unrhyw broblemau arwyddocaol yn ystod y cyfnod adolygu.

Trwy weithio gyda Heddlu De Cymru, llwyddodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Merthyr Tudful sicrhau £500,000 ar gyfer ward y dref. Defnyddiwyd yr arian yn rhannol i uwchraddio ei seilwaith teledu cylch cyfyng a bydd yn parhau i fonitro ardaloedd cyhoeddus. Y gobaith yw y bydd hyn yn rhwystro ymddygiad gwrthgymdeithasol. Os caiff digwyddiadau o faeddu neu droethi dynol mewn mannau cyhoeddus eu canfod, byddwn mewn sefyllfa well i weithredu o dan ddeddfwriaeth sy'n delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Darpariaeth gynaliadwy oddi fewn i'r gyllideb sydd ar gael**

*Mae'r Cyngor yn ymroi i weithredu mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys y modd y mae'n darparu cyfleusterau toiled, yn ogystal â'i gynlluniau ar draws y rhanbarth ehangach sy'n ymdrin â newid hinsawdd a rheoli carbon. Bydd symud ymlaen mewn modd cynaliadwy yn rhan o holl ddatblygiadau newydd y Cyngor.*

Mae'r Cyngor wedi cyflawni'r weithred hon ac wedi ystyried lleihau carbon a'i effaith amgylcheddol ar bob datblygiad newydd gan gynnwys y Gyfnewidfa Fysiau newydd. Ymhlith y camau ymarferol i gyflawni'r nod hwn, gosodwyd technolegau fel:

- Goleuadau LED sy'n effeithlon o ran ynni
- Rheolyddion Goleuo Deallus
- Amrywiol ddyfeisiau arbed dŵr fel tapiau llif isel, a synwyryddion presenoldeb sy'n gysylltiedig â thoiledau ac yn diffodd dŵr pan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio
- Sychwyr dwylo sy'n rhad-ar-ynni

**Cynnig gwybodaeth hygyrch trwy fapio'r ddarpariaeth toiledau**

*Gwella ymwybyddiaeth a gwybodaeth sydd ar gael am y ddarpariaeth toiledau yn y Fwrdeistref Sirol drwy ddiweddaru gwybodaeth ar restr data mynediad agored Lle LlC a hefyd diweddaru gwefan Dewis. Caiff dolen ei darparu o wefan Cyngor Merthyr Tudful.*

Ymgymerodd y Strategaeth â'r dasg o wella'r ymwybyddiaeth a'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am doiledau'r Fwrdeistref Sirol trwy fapio'r ddarpariaeth toiledau.

Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i ledaenu'r wybodaeth am leoliad toiledau, a helpu'r cyhoedd i ganfod y ddarpariaeth sydd ar gael iddynt yn lleol ac yn genedlaethol, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynhyrchu Map Toiledau Cenedlaethol.

Cynhyrchwyd y map hwn o fewn seilwaith mapio presennol Llywodraeth Cymru, trwy'r wefan Lle. Mae'r wefan yn cynhyrchu mapiau ar gyfer Cymru gyfan sydd wedi'u seilio ar setiau data a ddarperir gan awdurdodau lleol, ac sydd wedi'u ffurfweddu i ganolbwyntio ar naill ai'r darlun cenedlaethol neu ardaloedd mwy lleol. Mae'r data sydd wedi'i gynnwys ar fap Lle ar gael fel gwasanaeth data agored ac mae ar gael i bawb yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r dolenni i'r we sy'n cynnwys y Map Toiledau Cenedlaethol yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac fe'u gwelir isod:

https://gov.wales/toilets

https://llyw.cymru/toiledau

Gall y cyhoedd weld a chwilio'r data fel y mae'n ymddangos ar wefan Lle, i weld Cymru gyfan neu i edrych ar feysydd penodol.

Wrth archwilio'r map o Gymru, fe ddewch ar draws sbotiau coch sy'n cynrychioli un toiled neu fwy yn dibynnu ar ddwysedd y ddarpariaeth. Wrth i chi chwyddo'r map, mae'r dotiau coch yn gwahanu i gyfleusterau unigol. Trwy glicio ar unrhyw un o'r dotiau hyn, bydd panel yn ymddangos gyda gwybodaeth am bob toiled.

Un o heriau allweddol unrhyw ymarfer mapio yw cadw'r wybodaeth yn gyfredol. Mae hyn yn wir am wefan Lle sy'n dibynnu ar awdurdodau lleol yn diweddaru'u data, yn yr un modd ag y mae apiau ffôn symudol yn dibynnu ar adborth y cyhoedd i gadw'u gwybodaeth hwythau'n gyfredol.

Rydyn ni'n cydnabod bod hwn yn faes lle nad ydym wedi rhoi mecanwaith cadarn ar waith i adolygu a diweddaru'r data yn rheolaidd. Mae yna 2 reswm am hyn: yn gyntaf, diffyg capasiti cyffredinol i gyflawni'r dasg; ac yn ail, pandemig Covid-19. Yn sgil y pandemig, bu raid inni ddargyfeirio adnoddau, ac am fod adeiladau cyhoeddus a busnesau wedi cau neu wedi cyfyngu ar eu mynediad ar wahanol gamau o'r pandemig, bu hi'n amhosibl cadw i fyny â'r newidiadau.

Er mwyn gwella'r mynediad i wybodaeth am doiledau, rydyn ni wrthi'n uwchraddio ein tudalennau gwe rhyngweithiol ar Croeso Merthyr. Hyderwn y bydd hyn yn brofiad haws i ymwelwyr wrth iddynt gyrchu gwybodaeth am y dref, gan gynnwys ei thoiledau cyhoeddus, mewn un man.

Mae'r tudalennau cyfredol i'w gweld yn:

https://www.visitmerthyr.co.uk/map-page/

Bydd gan y map rhyngweithiol eglurhad ar yr ochr fel y gall defnyddwyr droi ymlaen yr haenau o wybodaeth sy'n ennyn eu diddordeb, a diffodd y gweddill.

**Cyfleusterau hawdd eu darganfod gydag arwyddion da yn cyfeirio atynt ac arwyddion sy'n rhoi gwybodaeth amdanynt yn unigol.**

*Nid oes gan bawb fynediad at y rhyngrwyd neu dechnoleg ffonau, yn enwedig y genhedlaeth hŷn. Caiff ei ystyried yn bwysig fod arwyddion yn cael eu darparu i gyfeirio'r cyhoedd at doiledau mewn mannau sy'n gysylltiedig â chanolfannau trafnidiaeth, e.e. y farchnad dan do a'r orsaf fysiau newydd. Bydd arddangos logo toiled trwy osod sticeri wrth holl fynedfeydd y Cyngor, Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Cwm Taf, cyfleusterau cymunedol a busnesau sydd wedi cytuno i gael eu mapio, yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth am leoliadau'r toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd.*

Roedd y Strategaeth yn cydnabod nad oes gan bawb fynediad i'r rhyngrwyd neu dechnoleg ffonau, yn enwedig y genhedlaeth hŷn. Ar ôl gwrando ar ein preswylwyr a'n hymwelwyr, mae darparu arwyddion i gyfeirio'r cyhoedd i doiledau sydd ar gael iddynt

mewn gwahanol ardaloedd, yn enwedig y rhai sy’n gysylltiedig â hybiau trafnidiaeth, yn parhau i fod yn dasg ragorol y mae angen mynd i’r afael â hi.

Mae tîm o ddylunwyr trefol, arbenigwyr eiddo masnachol ac arbenigwyr peirianneg sy’n darparu cyngor trafnidiaeth wedi llunio Uwchgynllun ar gyfer Canol y Dref dros gyfnod o 15 mlynedd. Gweledigaeth y “Cynllun Creu Lleoedd” yw y bydd gan ganol y dref, erbyn 2035, adeiladau ansawdd uchel ar gyfer preswylio, swyddfeydd, hamdden a manwerthu. Bydd yno sgwariau cyhoeddus newydd, mannau gwyrdd a “glan yr afon fywiog” hefyd. Dywed mai’r nod yw creu canol i’r dref a fydd yn meddu ar strydoedd, sgwariau a llwybrau deniadol i groesawu a chalonogi pobl. Fel rhan annatod o’r cynllun hwn, caiff arwyddion cyfeiriadol eu darparu gan gynnwys rhai ar gyfer toiledau cyhoeddus.

Yn ogystal, mae’r Cynllun Toiledau a gydnabyddir yn genedlaethol, wedi darparu’r modd i hysbysebu toiledau cyhoeddus mewn ffordd gyson. Gellir defnyddio’r logo toiled, er enghraifft, fel arwydd i’w harddangos ar ffenestri’r adeiladau hynny sydd wedi caniatáu i’r cyhoedd ddefnyddio’u cyfleusterau.

Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu a rhoi cyhoeddusrwydd i’r logo toiled fel rhan o’i ymdrech i godi ymwybyddiaeth o doiledau cyhoeddus. Dosbarthwyd sticeri o’r logo toiled i’w harddangos ar fynedfeydd/ffenestri adeiladau’r Cyngor, Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, cyfleusterau cymunedol a busnesau a gytunodd i gael eu mapio, er mwyn helpu’r dasg o hyrwyddo ymwybyddiaeth am leoliadau toiledau sydd ar gael i’r cyhoedd.

**Gwneud y mwyaf o argaeledd trwy bartneriaeth a darpariaeth fasnachol**

*Parhau i weithio gyda busnesau lleol i hyrwyddo’r defnydd a wneir o’u cyfleusterau toiled. Archwilio ffyrdd o roi ysgogiad ariannol i fusnesau fel y gallant agor eu toiledau i’r cyhoedd yn y mannau lle nododd yr asesiad o anghenion fod yna fwlch yn y ddarpariaeth. Ymchwilio i opsiynau ar gyfer cynyddu’r ddarpariaeth o doiledau lleol trwy ddulliau noddi, hysbysebu a gweithio mewn partneriaeth.*

Yn bennaf oherwydd pandemig Covid-19, prin fu’r cynnydd ar y pwynt gweithredu hwn.

Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, does gan y Cyngor ddim cynlluniau i gynnig cyllid uniongyrchol i fusnesau fel eu bod yn agor eu toiledau i’r cyhoedd. Fodd bynnag, mae cynnwys busnesau ar wybodaeth sy’n hyrwyddo twristiaeth yn opsiwn ymarferol. Yn benodol, mewn perthynas â Thaith Taf, bu rhywfaint o ymgysylltu â busnesau ac mae Canolfan Awyr Agored Parkwood Dolygaer wedi cydsynio i gael ei fapio fel arhosfan “te a thoiled” ar lenyddiaeth sy’n hybu twristiaeth yn ogystal â thudalennau gwe rhyngweithiol Croeso Merthyr.

**Cysylltu a gweithio â Chynghorau Cymuned a Thref i ddarparu toiledau mewn cynifer o leoliadau â phosibl.**

*Archwilio cyfleoedd i gynyddu nifer y toiledau sy’n hygyrch i’r cyhoedd mewn lleoliadau gwledig allweddol ar hyd Taith Taf trwy weithio â grwpiau cymunedol.*

Bu rhywfaint o ymgysylltu â Chyngor Cymuned Bedlinog a Threlewis ac maent wedi awgrymu ein bod yn cysylltu â Chartrefi Cymoedd Merthyr (MVH) sy'n rhedeg canolfan gymunedol yn Nhrelewis. Mae cyfleusterau cymunedol Bedlinog ar agor ond mae'n rhaid bwcio ar eu cyfer. Y cam nesaf fydd ymgysylltu ag MVH i ddarganfod a fyddent yn barod i gynnwys y ganolfan ar y Map Toiledau Cenedlaethol a thudalen we ryngweithiol Croeso Merthyr.

**Polisïau gosod**

*Er nad oes yna ar hyn o bryd eiddo masnachol ar gael yng nghanol y dref dan berchnogaeth y Cyngor, dylid rhoi ystyriaeth i gyflwyno cymal mewn cytundebau prydlesu'r Cyngor o hyn allan. Yn ôl y cymal, bydd hi'n ofynnol i fusnesau addas fel siop neu gaffi, ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'u cyfleusterau toiled. Byddai angen cydbwyso hyn yn erbyn unrhyw adwaith posibl fel lleihad mewn incwm rhent neu'r posibilrwydd y gallai'r gofyniad atal darpar denantiaid rhag cymryd prydles.*

Mae ein Tîm Ystadau wedi ymrwymo'n barhaus i ystyried y posibilrwydd o gynnwys y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus wrth drafod prydlesi. Fodd bynnag, cydnabyddir mai prin iawn fydd y cyfleoedd hyn ac efallai y bydd hi'n anodd goresgyn anawsterau ymarferol mewn rhai amgylchiadau.

**Darparu cyfleusterau toiled digonol gan hyrwyddwyr/trefnwyr digwyddiadau arbennig**

*Mae angen rhoi ystyriaeth i gyfleusterau toiled ar gyfer pobl sy'n mynychu digwyddiadau arbennig, awyr agored, boed trwy osodiadau dros dro neu drwy ddefnyddio cyfleusterau sydd ar gael eisoes yn y digwyddiad neu'n agos iddo, drwy gytundeb â'r Cyngor. Mae'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau yn darparu canllawiau am ddim i drefnwyr digwyddiadau, gan gynnwys defnyddio tir ar gyfer digwyddiadau awyr agored a defnyddio priffyrdd sydd o dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor. Caiff cyngor a chanllawiau ar gyfleusterau toiled dros dro eu darparu fel rhan o ddull cyson, rhagweithiol ac integredig i drefnu gwasanaethau cefnogi a swyddogaethau rheoleiddio ar gyfer digwyddiadau. Byddir hefyd yn cynnig fframwaith ariannol cadarn i'r gefnogaeth hon yn ogystal â sicrhau cydymffurfiad â safonau Iechyd a Diogelwch. Bydd y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau yn parhau i weithio â threfnwyr i sicrhau eu bod yn darparu cyfleusterau toiled digonol i'r rhai sy'n mynychu'r digwyddiadau. Mae digwyddiadau dros dro a drefnwyd ar fyr rybudd yn fwy heriol ond bydd y Cyngor yn gweithio â threfnwyr i geisio sicrhau darpariaeth toiled digonol.*

Mae ein Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau (ESAG) yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i drafod digwyddiadau arfaethedig ac i ddarparu cyngor ac arweiniad i drefnwyr. Wrth i gymdeithas ddechrau adfywio ar ôl pandemig Covid-19 ac wrth i nifer y digwyddiadau gynyddu, mae'r Grŵp wedi cael y dasg o edrych ar yr asesiadau risg a gynhyrchwyd gan y trefnwyr yn sgil Covid. Mae hyn wedi golygu bod y Grŵp yn cwrdd yn amlach i drafod ystod ehangach o ddigwyddiadau nag a fyddai cyn y pandemig.

**Mannau Gwyrdd**

*Mae Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cydnabod fod yr angen am gyfleusterau toiled yn fawr mewn parciau gan gynnwys ardaloedd chwarae a mannau gwyrdd mwy anffurfiol fel parciau gwledig. Mae atyniadau poblogaidd fel Parc Cyfarthfa a Pharc Taf Bargoed yn denu twristiaid a phreswylwyr ac yn cynnwys ardaloedd chwarae i blant. Mae'n annhebygol y bydd yna gyfleusterau eraill wrth law y gall pobl eu defnyddio wrth fwynhau'r parc, ac felly bydd y Cyngor yn ceisio cynnal darpariaethau toiled yn yr ardaloedd hyn ac yn archwilio ffyrdd o estyn yr oriau agor. Er enghraifft, pan fydd Prosiect Hydro Parc Taf Bargoed yn cynhyrchu refeniw ac yn cydymffurfio'n llawn â rhwymedigaethau'r brydles, efallai y bydd modd ariannu swydd y warden presennol yn llwyr gan y Prosiect. Gallai hyn ryddhau cyllid a ddefnyddir ar hyn o bryd ar warden y parc i ddarparu cyfleusterau ychwanegol, e.e. lleoedd newid babanod ac oriau agor ychwanegol.*

Yn anffodus, ni ddaeth y cyllid o'r cynllun Hydro i'r fei ac felly, nid oes modd cyflogi staff ychwanegol na chynnig oriau estynedig.

Mae'r Cyngor yn dal i ariannu'r warden ond cyfyngwyd ar yr oriau agor yn sgil y prinder staff.

**Mynd i'r afael â digartrefedd**

*Archwilio opsiynau i ddarparu cyfleusterau i bobl sy'n cysgu ar y stryd er mwyn lleihau faint o faeddu dynol sydd yng nghanol y dref ac ar hyd Taith Taf.*

Cafwyd gwelliant o ran baeddu dynol yn yr ardaloedd hyn ac ni chafodd yr un broblem ei nodi ar hyn o bryd mewn perthynas â phobl sy'n cysgu allan. Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at ostyngiad yn nifer y rhai sy'n cysgu allan oherwydd newidiadau yng ngofynion Cynghorau i ddarparu llety ar gyfer pobl ddigartref. O dan y ddeddfwriaeth gyfredol, mae pawb sy'n nodi'u bod yn ddigartref yn cael llety dros dro gyda chyfleusterau priodol. Pe bai hyn yn newid gydag unigolion yn dychwelyd i gysgu allan, byddai mynediad i amwynderau megis toiledau y tu allan i oriau, yn broblem.

**Pwerau cyfreithiol**

*Caiff pwerau eu defnyddio i sicrhau fod toiledau cyhoeddus yn cael eu darparu a'u cynnal er defnydd y cyhoedd mewn lleoliadau masnachol perthnasol. Yn ôl adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, gall awdurdod lleol ofyn i unrhyw fusnes a ddosberthir fel lle sy'n cynnig adloniant neu'n gwerthu bwyd a diod i'r cyhoedd ar ei safle, ddarparu toiledau cyhoeddus. Caiff y pwerau hyn eu gweithredu lle bo modd.*

Mae hyn yn weithred barhaus. Mae digonolrwydd y cyfleusterau toiled yn cael ei ystyried fel rhan arferol o bob archwiliad sy'n ymwneud â  diogelwch bwyd.

**Rhoddir ystyriaeth i gynnwys darpariaeth toiledau lleol yn yr Ardoll Seilwaith Cymunedol**

*Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i godi arian oddi wrth ddatblygwyr sy'n ymgymryd â phrosiectau adeiladu newydd penodol yn yr ardal. Gellir defnyddio'r arian ar gyfer amrywiaeth eang o gostau seilwaith megis addysg, priffyrdd ac ati, a gwyd er enghraifft, yn sgil codi tai newydd. Gallai hyn fod yn un ffordd o sicrhau cyllid yn y dyfodol ar gyfer toiledau cyhoeddus oddi fewn neu wrth ymyl datblygiadau newydd, gan ddibynnu ar yr angen a'r galw amdanynt ac ar flaenoriaethau'r seilweithiau newydd.*

Mae'r Cyngor wedi ystyried cynnwys "darpariaeth toiledau cyhoeddus" ar restr yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) ond o ystyried y symiau cymharol fach o CIL a dderbyniwn, a'r tebygolrwydd y bydd eitemau eraill ar y rhestr yn flaenoriaeth uwch i'r Cyngor (gwelliannau i ysgolion a phriffyrdd, er enghraifft), penderfynwyd na fyddai'n fuddiol cynnwys toiledau cyhoeddus ar y rhestr ar hyn o bryd.

## Beth mae adborth cwsmeriaid yn ei ddweud wrthym?

Fel rhan o'r adolygiad interim hwn, rydym wedi edrych ar gwynion a chanmoliaeth gan gwsmeriaid i lywio ein cynnydd. Roedd hyn yn cynnwys cael gwybodaeth gan ein Swyddog Cwynion Corfforaethol, Cyfathrebu Corfforaethol, ac adrannau unigol sy'n gyfrifol am lanhau a gorfodi. Mae'r adborth yn ymwneud â darparu toiledau yn gyffredinol.

Yn ystod y cyfnod adolygu, derbyniodd y Cyngor bedair cwyn a phum postiad ar gyfryngau cymdeithasol. Roedd y cwynion yn ymwneud â'r canlynol:

- y diffyg darpariaeth o doiledau yng nghanol y dref **(3)**, sydd wedi gwella ers hynny yn sgil agor y Gyfnewidfa Fysiau newydd;
- cau'r cyfleusterau toiled yn y parciau dros dro oherwydd pandemig Covid **(2)**, sydd bellach wedi ailagor;
- glendid gwael y toiledau mewn archfarchnad leol **(1)**;
- diffyg dŵr poeth yng nghyfleusterau toiled un o'r archfarchnadoedd lleol **(1)**; ac
- adeilad trwyddedig heb doiledau i'r anabl **(2)**. Ymchwiliwyd i hyn a chanfuwyd bod statws rhestredig yr adeiladau yn cyfyngu ar addasiadau.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Gan gofio'r effaith enfawr a gafodd pandemig Covid 19 dros gyfnod maith, mae'r Cyngor yn dal i wneud cynnydd pwysig i gyflawni'r camau y mae'r Strategaeth Toiledau Lleol yn eu harddel. Yn ogystal, mae'r Strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol ac nid oes angen ei hadolygu ar hyn o bryd.

Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud nesaf yw adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yma a chanolbwyntio ar symud ymlaen unrhyw gamau gweithredu rhagorol sydd wedi'u nodi.

**Camau Dilynol Penodol:**

**Darparu gwybodaeth hygyrch trwy fapio darpariaeth toiledau**

- Perchnogaeth barhaus ar gyfeirio arwyddion i sicrhau bod y Map Toiledau Cenedlaethol ar wefan Lle yn cael ei gadw mor gyfoes â phosibl.
- Cwblhau'r dasg o uwchraddio map rhyngweithiol Croeso Merthyr i gynnwys toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd.

Y nod yw cwblhau'r camau hyn erbyn dyddiad cyhoeddi'r adolygiad.

**Cyfleusterau y gellir dod o hyd iddynt yn hawdd gydag arwyddion cyfeiriad da ac arwyddion gwybodaeth am gyfleusterau unigol.**

- Sicrhau bod darparu arwyddion cyfeiriadol i doiledau sydd ar gael i'r cyhoedd yn cael eu cynnwys a'u cyflenwi fel rhan annatod o'r "Cynllun Creu Lleoedd 2019-2035".

**Gwneud y mwyaf o argaeledd trwy ddarpariaeth partneriaeth a masnachol.**

- Parhau i geisio sicrhau bod toiledau ar gael at ddefnydd y cyhoedd trwy ddarpariaeth partneriaeth a masnachol. Ar bob cyfle, anogir cyfranogiad, e.e. ar bwynt trwyddedu ceisiadau, cofrestriadau busnesau newydd, cytundebau prydles ac ati.

**Mynd i'r afael â digartrefedd**

Adolygu'r ddyletswydd i ddarparu llety i bobl ddigartref a weithredwyd yn ystod y pandemig a'r effaith bosibl y gallai dileu'r ddyletswydd honno ei chael.

**Dyddiad yr adolygiad nesaf**

Mae'r canllawiau statudol yn mynnu bod yn rhaid i'r ALl hefyd adolygu'r Strategaeth Toiledau Lleol o fewn blwyddyn i bob etholiad cyffredin ar gyfer ei ardal. Dyddiad nesaf yr etholiad yng Nghymru yw dydd Iau 5 Mai 2022 felly'r dyddiad adolygu diweddaraf yw 4 Mai 2023. Os na wneir unrhyw newidiadau i'r strategaeth yn dilyn yr adolygiad ar ôl yr etholiad, yna mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi datganiad cynnydd dros dro sy'n ymdrin â chyfnod o ddwy flynedd yn cychwyn o ddyddiad yr etholiad diwethaf.

## Casgliadau

Mae pandemig Covid wedi cael effaith sylweddol ar allu’r Cyngor i gyflawni’i amcanion strategol ac nid yw’r Strategaeth Toiledau Lleol yn eithriad. Mwy nag erioed, mae llwyddiant unrhyw strategaeth yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth i gael y gorau o adnoddau prin.

Fe wnaethon ni ddysgu o’n hasesiadau asesu anghenion a’n hymgynghoriad cyhoeddus fod y bwlch rhwng yr hyn oedd ei angen a’r hyn oedd ar gael yn sylweddol, yn enwedig yng nghanol y dref.

Er mwyn cyflawni’r nod o ddarparu toiledau glân, diogel, hygyrch a chynaliadwy i drigolion ac ymwelwyr â’r Fwrdeistref Sirol yn y mannau lle nodwyd bod angen cyfleusterau o’r fath, fe wnaethon ni gynnig cyfres o gamau i’w cymryd dros gyfnod o 2 flynedd.

Fel man cychwyn, roedd y cynigion yn cynnwys mapio’r holl doiledau sydd ar gael i’r cyhoedd. Cynnig allweddol arall oedd gwella argaeledd y toiledau sydd ar gael i’r cyhoedd yng nghanol y dref trwy gynyddu ein portffolio toiledau ein hunain sy’n gysylltiedig ag adfywio’r Orsaf Fysiau. Yn ogystal, fe wnaethon ni ymrwymo i archwilio ffyrdd o weithio ar y cyd â’r sectorau sector preifat a gwirfoddoli i wella darpariaeth ym mhob man lle nodwyd angen.

Yn ystod y cyfnod adolygu 2 flynedd, mae’r holl gyfleusterau toiled sydd ar gael i’r cyhoedd wedi’u cyfeirio a’u cynnwys yn y Map Toiledau Cenedlaethol ar wefan Lle, fel y bydd preswylwyr ac ymwelwyr yn gwybod lle i ddod o hyd iddynt, pryd y maent ar agor a pha gyfleusterau sydd ar gael. Rydyn ni hefyd yn diweddaru ein tudalennau gwe rhyngweithiol ar Croeso Merthyr i gynnwys toiledau sydd ar agor at ddefnydd y cyhoedd. Mae cwblhau’r Gyfnewidfa Fysiau newydd, a agorodd ym mis Mehefin 2021, wedi gwella’r ddarpariaeth toiledau’n sylweddol yn un o’r prif fynedfeydd i ganol y dref.

Mae’r Strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol, a’r ffocws nawr yw adeiladu ar y cynigion presennol hyd nes y cynhelir yr adolygiad statudol nesaf ar ôl yr etholiad.

## Atodiad 1

## Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad asesiad angen

Cafwyd ymgynghoriad rhwng 3-28 Medi 2018. Roedd yr arolwg ar gael ar-lein drwy Smart Survey a chyfeiriwyd pobl at yr arolwg drwy dudalen Facebook CBSMT, tudalen Twitter CBSMT a'r wefan gorfforaethol. Darparwyd copïau papur hefyd i'r Fforwm 50+ trwy'r Cydlynydd Cefnogi Pobl.

Gwnaeth **438** o bobl fynd at yr arolwg ar-lein, fodd bynnag dim ond **149** ohonynt gafodd eu cwblhau.

Canfyddiadau allweddol:

- roedd **131** o'r ymatebwyr yn breswylwyr ym Merthyr Tudful
- roedd **83** o'r ymatebwyr yn benodol berthnasol i Ward y Dref
- cafodd Parc Cyfarthfa ei restru fel yr atyniad yr ymwelwyd ag ef yn fwyaf aml, gyda Pharc Taf Bargoed yn dilyn
- teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr fod y ddarpariaeth doiled un ai'n annigonol neu nad oedd unrhyw gyfleusterau ar gael
- roedd **93.3%** o ymatebwyr yn anghytuno fod yna ddigon o gyfleusterau
- roedd **90%** o ymatebwyr yn teimlo fel nad oes yna ddigon o wybodaeth am y mannau lle caiff y cyfleusterau eu lleoli
- nid oedd **84.6%** o'r ymatebwyr yn hoffi defnyddio toiledau mewn siopau na thai bwyta am eu bod yn teimlo fod angen iddynt brynu rhywbeth
- teimlai **85.2%** o ymatebwyr y dylai toiledau fod yn rhad ac am ddim i'w defnyddio

Demograffeg:

- roedd **74.5%** o ymatebwyr rhwng 36-64 oed
- roedd **68.46%** yn fenywod
- roedd **86.58%** o ethnigrwydd gwyn
- roedd **36.17%** o ymatebwyr un ai ag anabledd neu broblem iechyd hirdymor

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriadau cyhoeddus 12 wythnos

### Y broses ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos o ddydd Iau 20 Rhagfyr 2018 tan ddydd Iau 14 Mawrth 2019.

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein drwy Smart Survey ac roedd pobl yn cael eu cyfeirio at yr arolwg drwy dudalen Facebook a Twitter CBSMT, a'r wefan gorfforaethol.

Roedd copïau papur ar gael wrth ddesgiau Derbynfa'r Cyngor yn y Ganolfan Ddinesig ac adeiladau Uned 5.

Hefyd, cafodd yr arolwg ei anfon drwy e-bost i'r holl staff a Chynghorwyr ac i'r amrywiol randdeilaid a sefydliadau lleol a chenedlaethol gan gynnwys GGMT, Fforwm 50+, Shelter Cymru, Merthyr Tudful Ddiogelach, Crohns & Colitis UK, Helping Hands a Chwaraeon i'r Anabl Merthyr.

Cafodd **457** o bobl fynediad i'r arolwg ar-lein. Cafodd **84** arolwg eu cwblhau. Teimlwn fod y gymhareb cwblhau (18.38%) yn gymharol isel yn sgil y ffaith y gofynnwyd i bobl ddarllen y Strategaeth Ddrafft ar ddechrau'r arolwg er mwyn ateb y cwestiynau canlynol:

1. Dynodwch eich buddiant yn yr ymgynghoriad hwn (ticiwch bopeth cymwys):
2. Ydy'r crynodeb o'r anghenion asesu yn adlewyrchiad cywir o'r ddarpariaeth doiledau oddi fewn i Fwrdeistref Sirol Merthyr Tudful?
3. Yn eich barn chi, a yw'r Strategaeth wedi colli cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth doiledau ym Merthyr Tudful?
4. Yn eich barn chi, a yw'r Strategaeth wedi colli cyfle i gynyddu'r ddarpariaeth o doiledau ym Merthyr Tudful?
5. A oes gennych chi unrhyw sylwadau am sut y bwriada'r Cyngor wella mynediad at y ddarpariaeth doiledau dros y 2 flynedd nesaf?
6. A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr ydych yn teimlo sy'n berthnasol i ddatblygu'r Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer Merthyr Tudful?

Rhowch fanylion os ydych chi'n teimlo bod eich ymateb i'r arolwg hwn wedi'i ddylanwadu (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gan unrhyw un o'r canlynol: eich tarddiad ethnig, rhywedd, oed, statws priodasol, tueddfryd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, credoau neu ddiffyg credoau crefyddol, y defnydd o'r Gymraeg, BSL neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd neu gyfrifoldeb dros unrhyw un sy'n ddibynnol arnoch. Rhowch fanylion:

**Canlyniadau'r ymgynghoriad**

Canfyddiadau allweddol:

- Roedd **90.48%** o'r ymatebwyr yn breswylwyr ym Merthyr Tudful
- Roedd **61.90%** o'r ymatebwyr o'r farn fod crynodeb yr asesiad angen yn adlewyrchiad cywir o'r ddarpariaeth doiledau ym Merthyr Tudful
- Roedd **71.43%** o'r ymatebwyr o'r farn fod y Strategaeth wedi colli cyfle i gynyddu'r ddarpariaeth doiledau ym Merthyr Tudful. Ymhlith rhai o'r sylwadau ynghylch hyn, cafwyd y canlynol:
    - *Ddylai fyth fod wedi bod bwlch o'r fath o ran y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yn yr Orsaf Fysiau bresennol. Mae'r toiledau yn parhau i fod yna ond ni ellir eu defnyddio. Mae cyfnod hir cyn bod gwaith yn dechrau ar yr orsaf fysiau newydd, os o gwbl.*
    - *Mae'n bosibl y gallai busnesau gael cynnig o ostyngiad canrannol i'w hardrethi busnes pe byddent yn barod i gynnig darpariaeth toiledau am ddim. Dylid codi'r cyfyngiadau ar doiledau i'r anabl/dynion/menywod i fusnesau bach sy'n cynnig y ddarpariaeth hon.*
    - *Mae angen i NI gynyddu nifer y toiledau o ansawdd da mewn Meysydd Parcio ac ardaloedd Trafnidiaeth.*
    - *Cafodd y ddarpariaeth toiledau ei lleihau nifer o flynyddoedd yn ôl – mae angen rhagor, yn enwedig yng nghanol y dref.*
    - *Mae'n anodd cynyddu'r ddarpariaeth toiledau gan y byddai felly'n ofynnol un ai ail-agor toiledau'r orsaf fysiau neu adeiladu cyfleusterau newydd. Mae'r pwysau ariannol ar y Cyngor yn fwy nawr nag yr oedd flynyddoedd yn ôl.*
    - *Dylid gwneud rhagor i ymgysylltu â busnesau lleol i agor eu cyfleusterau i'r cyhoedd. Dylid ystyried grantiau neu gymelliadau bach.*
    - *Gan yr ymddengys nad yw busnesau lleol am agor eu darpariaeth i'r cyhoedd, a chan fod yna gyndynrwydd o ran aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio cyfleusterau busnesau, dylai fod yna ryw fath o ddarpariaeth a ariennir yn gyhoeddus.*
    - *Mae sioe fawr yn cael ei wneud o'r ffaith y bydd yna nifer o doiledau yn yr orsaf fysiau newydd ond does dim sôn y byddant ond yn hygyrch tra bo'r adeilad ar agor, ac nid yw hynny hyd yn oed yn cynnwys oriau agor llawn yr orsaf.*
    - *Ni fydd trenau newydd i Gaerdydd yn cynnwys toiledau o gwbl. Rhaid i BOB gorsaf ar hyd y lein gynnwys darpariaeth toiledau. Mae yna hefyd angen am ddarpariaeth ledled ardal caffis/tafarndai Canol y Dref ar gyfer defnydd cyson o doiledau. Mae angen i hyn fod yn ddarpariaeth gyhoeddus.*

Cafwyd **32** ymateb i Gwestiwn 5 (Oes gennych unrhyw sylwadau am sut y mae'r Cyngor yn bwriadu gwella mynediad at ddarpariaeth doiledau dros y 2 flynedd nesaf?) a gellir gweld detholiad ohonynt isod:

- *Dylid uwchraddio'r cyfleusterau ar unwaith. Weithiau, mae'n anodd iawn wrth deithio o Ferthyr i lawr y cwm er mwyn teithio ymhellach, i gael mynediad at gyfleusterau toiledau a llwyddo i ddal y bysiau. Gwastraffwyd llawer o arian yn trawsnewid toiledau'r orsaf fysiau ac yna disgwyl i weithwyr y caffi eu glanhau, wrth ystyried faint o bobl fyddai angen eu defnyddio.*
- *Mae angen bloc toiledau fel oedd arfer bod wrth yr arhosfan fysiau i bobl ei ddefnyddio, gan greu yn ei dro swyddi glanhau a chynnal a chadw toiledau.*
- *Mae'n bosibl fod yna grwpiau cymunedol â diddordeb mewn rhedeg cyfleuster cymunedol – ddim yn siŵr a yw hyn wedi ei gynnwys.*
- *Dewch â thoiledau cyhoeddus yn ôl i'r orsaf fysiau hyd yn oed os byddai rhaid talu 30c i'w defnyddio.*
- *Talwch weithwyr i gynnal a chadw a gofalu am y cyfleusterau hyn. Cyflogaeth i bobl leol ac amwynderau y gellir eu defnyddio gan ymwelwyr a phobl leol.*
- *Sylwadau am nad yw pobl yn defnyddio siopau canol y dref ayb oherwydd y bobl annymunol sy'n loetran o gwmpas y dref – ydy, mae hyn yn cael effaith, ond mae hyn i'w weld ym mhob tref; mae'r cyfleusterau toiledau ym Merthyr a'r cylch yn ofnadwy.*
- *Mae angen toiledau cyhoeddus ym Mharc Manwerthu Pentre-bach. Roedd rhaid i mi adael fy siopa a gyrru i'r Co-op gan fod fy mhlentyn angen y toiled. Doedd dim cyfleusterau ar gael.*
- *Mae arwyddion GO IAWN yn hanfodol.*
- *Gellir gwneud gwelliannau trwy adlewyrchu ar drefi a dinasoedd byd-eang, lle y cafodd mynediad ei seilio'n llwyddiannus ar eu strategaeth leol.*
- *Mae llawer o lefydd hefyd yn cynnig darpariaeth lân a modern drwy roi'r hawl i bobl dalu, hynny yw: arian, cerdyn.*
- *Mae'n hanfodol i gymdeithas sy'n heneiddio gael mynediad at gyfleusterau toiledau glân a diogel ynghyd â nifer o grwpiau lleiafrifol eraill o bobl a nodwyd.*
- *Mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth i ddarpariaeth toiledau yn enwedig dros benwythnosau ac ar ôl oriau gwaith arferol. Mae angen i'r ddarpariaeth gael ei goruchwylio/monitro i atal camddefnyddio sydd, yn ei dro, yn atal y cyhoedd rhag ei defnyddio.*
- *Byddai'n fuddiol cydweithio â busnesau lleol i alluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu cyfleusterau, os oes rhai ganddynt. Byddai gwell arwyddion i gyfleusterau cyhoeddus yn beth da.*
- *Rydych yn cydnabod nad oes digon o doiledau yn ardaloedd y Fwrdeistref ond does dim sôn am y tu allan i ardal y dref, beth am y wardiau eraill?*
- *Rwy'n meddwl y bydd y gwefannau'n ddeniadol i'r ifanc, ond rhaid i chi gynnwys arwyddion sylfaenol hefyd oherwydd bydd carfan fawr o'r henoed na fyddant yn gallu defnyddio'r we.*
- *Cynyddu'r defnydd o gyfleusterau mewn busnesau cyfredol ac adeiladau masnachol, efallai trwy gymhelliad ardrethol neu ariannol arall o'r awdurdod.*
- *Dylai fod gan yr orsaf fysiau doiledau sydd ar agor ar ôl oriau siopa.*

Ymhlith rhai o’r sylwadau ychwanegol, cafwyd y canlynol:

- *Mae arwyddion sy’n cyfeirio at doiledau yn nodwedd mewn sawl ardal ganol tref ac atyniad twristiaid, gan helpu’r bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Nodwedd arall mewn trefi ac atyniadau twristiaid poblogaidd yw’r ddarpariaeth o fapiau wrth byrth/ prif lwybrau gyda “rydych chi yma” ac yn dangos llefydd o ddiddordeb gan gynnwys toiledau.*
- *Mae’r strategaeth yn canolbwyntio’n ormodol ar fynediad i’r wefan/rhyngrwyd wrth fynd i’r afael â sut y bydd yn “hysbysebu” lleoliadau’r cyfleusterau toiled gan dybio fod gan lawer o bobl fynediad at ffonau a’r we.*
- *Ymddengys y gallai wella’r ymwybyddiaeth o gyfleusterau lleol.*
- *Ceir nifer o fanwerthwyr mawr sy’n hapus i chi alw mewn a defnyddio’u cyfleusterau ac ni chaiff hyn ei gydnabod ar y rhestr ddarpariaeth.*

Demograffeg yr ymatebwyr:

- Roedd **54.76%** yn 51+ oed
- Roedd **60.71%** yn fenywod
- Roedd **40.47%** ag un ai anabledd neu salwch hirdymor neu broblem iechyd